ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y GRŴP SWYDDOGION TECHNEGOL RHANBARTHOL

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mercher 17 Awst 2005, am 10.30am
Siambr y Cyngor, Canolfan Ddinesig Penllergaer.

Yn bresennol

Ceri Morris (Cadeirydd)	CBS Castell-nedd Port Talbot
Vaughan Thomas	CBS Castell-nedd Port Talbot
Carol A Williams	Cyngor Sir Penfro / APCAP
Dave Harries	Cyngor Sir Penfro
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Hugh Towns	Cyngor Sir Caerfyrddin
Phil Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Philip Marks	CYLCH
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Huw Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (De-orllewin Cymru)
Miranda Lewis	Asiantaeth yr Amgylchedd
Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Andy Rees	Llywodraeth Cynulliad Cymru (Uned Strategaeth Gwastraff)
Karen Maddock-Jones	Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

1. **Ymddiheuriadau**

Geoff White	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Julian Smith	Siambr Fasnach Gorllewin Cymru
Adrian Jones	Llywodraeth Cynulliad Cymru (Uned Strategaeth Gwastraff)
Graham Bishop	Ymddiriedolaeth Amgylchedd Cymru
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion

2. **Cofnodion cyfarfod y Grŵp Technegol 15 Ebrill 2005**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir ac nid oedd materion yn codi.

3. **Contract Grŵp Gwastraff Rhanbarthol: Adroddiad ar Wastraff Peryglus**
[Adroddiad yr Ymgynghoriad (Awst 2005) / Adroddiad Atodol yr Ymgynghoriad (Awst 2005) / Adroddiad ar Wastraff Peryglus (Drafft – Awst 2005)]

Cyfeiriodd CM at y dogfennau uchod a ddosbarthwyd a dywedodd:

- bod llawer o waith wedi'i gyflawni, wrth ailddrafftio'r Adroddiad, gan swyddogion o'r tri awdurdod blaen, Uned Strategaeth Gwastraff LlCC ac AyrA (Cymru);
- cafwyd ymdrech wirioneddol i gynhyrchu Adroddiad a fodlonai'r rhan fwyaf o'r materion a'r pryderon a godwyd;
- cynhyrchwyd ***Adroddiad yr Ymgynghoriad (Awst 2005)*** o'r ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn y cyfnod ymgynghori 4 wythnos;
- cafwyd ymatebion gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ystâd y Goron, Siambr Fasnach Gorllewin Morgannwg ac USG LlCC. Cafwyd ymatebion wedi hynny gan AyrA (Cymru) ac ar y cyd gan Gyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.

Nodwyd er bod y sylwadau hyn yn 'hwyr', y rhoddwyd ystyriaeth deg iddynt;

- cynhyrchwyd ***Adroddiad Atodol yr Ymgynghoriad (Awst 2005)*** o sylwadau ychwanegol a gyflwynwyd gan USG LlCC ar ailddrafft cychwynnol yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol;
- cyflwynwyd cyfanswm o 32 o sylwadau ychwanegol: 1 gan AyrA (Cymru) – derbyniwyd yn llawn / 1 cefnogol – wedi'i nodi / ac o'r 30 o sylwadau a oedd yn weddill, derbyniwyd 18 yn llawn / 9 yn rhannol / ac ystyriwyd 3 naill ai'n amhosib eu cyflawni neu'n ddiangen;
- mae'r ***Adroddiad Drafft ar Wastraff Peryglus (Awst 2005)*** yn ymgorffori'r holl argymhellion a wnaed gyn y ddau Adroddiad Ymgynghorol;
- paratowyd *Adroddiad Drafft* tebyg yn y ddau ranbarth arall; ac
- mae angen i'r GTRh gymeradwyo'r adroddiad (yn amodol ar welliannau eraill) er mwyn cyflwyno Drafft terfynol i gyfarfod nesaf y FfA a drefnwyd ar gyfer dydd Gwener 9 Medi.

Cyfeiriodd CM wedyn at y set o sylwadau ychwanegol a ddosbarthwyd a gyflwynwyd gan USG LlCC ac a dderbyniwyd ddydd Mawrth 16 Awst. Cytunwyd i astudio'r Adroddiad Drafft fesul tudalen gan ystyried sylwadau pellach yn ôl y gofyn. **Cytunwyd** ar y gwelliannau canlynol:

- Paragraff 2.5: cynnwys cyswllt y we yn cyfeirio at y Rhestr Gwastraff Peryglus. **Gweithredu**: AR i ddarparu cyswllt y we;
- Paragraff 2.6: Dileu'r 3^{edd} frawddeg a'i disodli gyda ***"Mae lefelau cynhyrchu gwastraff peryglus yn y dyfodol yn ansicr. Gallai gostyngiad hanesyddol diweddar o ran cynhyrchu gwastraff o'r fath, ynghyd ag arferion gwahanol gan rai sectorau sy'n cynhyrchu lefelau uchel olygu gostyngiad sylweddol mewn rhai categorïau o wastraff peryglus. Ar y llaw arall, mae'n bosib y byddai cwmpas ehangach y Rheoliadau uchod yn diddymu hynny o'i gymharu â'r sefyllfa hanesyddol "***;
- Paragraff 3.6: Ei newid i ddarllen ***"Mae AyrA wedi cynghori bod yr enghreifftiau cyfredol o wastraff asbestos yn weddol gyson o flwyddyn i flwyddyn. Mae 'Hazardous Waste Interrogator' ar-lein AyrA yn dangos hyn a rhwng 1999 a 2003 roedd yr enghreifftiau o asbestos yn Ne Cymru ar gyfartaledd yn 3890 tunnell y flwyddyn. Serch hynny, bydd yn rhaid monitro enghreifftiau yn y dyfodol yn ofalus. Mae'r ffaith bod rheoli asbestos erbyn hyn yn llymach na'r hyn ydoedd yn hanesyddol a bod rheolwyr adeiladau yn llawer mwy ymwybodol o risgiau, yn golygu y gallai'r llwythi asbestos gynyddu dros amser nes bod problemau'r gorffennol ar y cyfan wedi'u datrys"***;
- Paragraff 3.7: Ychwanegu'r testun canlynol at ddiwedd y paragraff ***"Unwaith eto bydd angen monitro digwyddiadau yn y dyfodol yn ofalus oherwydd gall rhai prosiectau adfer tir llygredig gynhyrchu cryn dipyn o dunelli o bridd llygredig"***;
- Paragraff 3.10: Ychwanegu'r testun canlynol at ddiwedd y paragraff ***"Nid yw'r sefyllfa bresennol hon yn cydymffurfio â'r egwyddor agosrwydd a osodwyd gan Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff y CE"***;
- Paragraff 4.3: Dileu *"clir"*;
- Paragraff 5.10: Newid i ddarllen "…***mae'n debygol*** y bydd angen gorsafoedd trosglwyddo ychwanegol…";
- Paragraff 5.17: Newid i ddarllen "…***mae'n debygol*** y bydd angen gorsafoedd trin gwastraff peryglus ychwanegol, er enghraifft gweithfeydd datgymalu WEEE …";
- Paragraff 5.20: Newid y frawddeg olaf i ddarllen "***Credir bod*** ar hyn o bryd…";
- Paragraff 5.21: Dileu *"natur beryglus"* a'i ddisodli â ***"o natur beryglus"***;
- Paragraff 5.23: Dileu *"O gofio y byddai angen simne ar gyfer adeiladau cyfleuster o'r fath, byddai'n amhriodol lleoli cyfleuster o'r fath ar lawr dyffryn yn ôl pob tebyg"*;
- Paragraff 5.34: Dileu *"Er mai un o amcanion allweddol SGGC yw defnyddio tirlenwi cyn lleied â phosib lle bo hynny'n ymarferol, mae'r Strategaeth yn cydnabod"* a'i ddisodli gyda ***"Mae SGGC yn datgan"***;
- Paragraff 5.43: Newid yr 2^{il} frawddeg i ddarllen "Ar hyn o bryd nid oes opsiwn ***cost effeithiol*** ar gyfer trin asbestos";
- Paragraff 5.44: Ychwanegu'r testun canlynol ar ôl y 3^{edd} frawddeg ***"Ffactor pwysig arall i'w***

ystyried yma fodd bynnag, yw ei bod hi'n bwysig cael cydbwysedd, oherwydd gallai diffyg cyfleusterau arwain at ymddygiad anghyfreithlon";

- Paragraff 5.45: Dileu "*Ceir ansicrwydd i ba raddau y bydd cynhyrchwyr gwastraff yn barod i dalu'r costau uwch sydd ymhlyg wrth weithredu'r Gyfarwyddeb Tirlenwi* ";
- Paragraff 5.51: Aileirio i ddarllen ***"Petai angen safle tirlenwi dynodedig ar gyfer gwastraff peryglus a hynny'n cynnwys y posibilrwydd o lygru pridd a dŵr daear o ganlyniad i fethiant adeileddol neu weithrediadol, yna yn ychwanegol at y gofynion am safle a gynlluniwyd yn briodol, byddai'n well lleoli'r cyfleuster mewn tir clai er mwyn gwella diogelwch y rheolaeth"***;
- Paragraff 6.5: brawddeg 1af disodli'r fannod ag enw amhendant;
- Paragraff 6.7: Ychwanegu'r testun canlynol ar ôl yr 2il frawddeg ***"Er enghraifft, gellir lleddfu'r meini prawf negyddol a nodwyd mewn rhai achosion gan dechnoleg leihau "***;
- Paragraff 6.9: Ychwanegu'r testun canlynol at ddiwedd y paragraff ***"Byddai hyn yn dod dan gyfrifoldeb Asiantaeth yr Amgylchedd"***;
- Paragraff 7.4: Newid y frawddeg olaf i ddarllen ***"Mae TAN21 yn amlygu cyfrifoldebau cywain data yr awdurdodau lleol ac o ganlyniad, mae'r Cydlynwyr Gwastraff Rhanbarthol yn trafod gydag Uned Strategaeth Gwastraff Llywodraeth Cynulliad Cymru i benderfynu ar y ffordd orau o gywain y data angenrheidiol"*** ac ychwanegu troednodyn cyfeirio (Para. 6.14); ac
- Atodiad B (Tudalen 36 Gorsaf Drosglwyddo / Ystyriaethau Lleoli): Newid i ddarllen "dylid ***gwasanaethu*** cyfleusterau mawr drwy ..."

Yn amodol ar ymgorffori'r gwelliannau uchod, **cytunwyd** ar yr 'Adroddiad ar Wastraff Peryglus'.

4. Ymchwil Mapio GIS: Adroddiad Cynnydd gan LCC

Yn dilyn canslo'r seminar Lledaenu a Hyfforddi, adroddodd SM y canlynol:

- mae'r ymchwil a'r adroddiad terfynol wedi'u cwblhau;
- gan gyfeirio at y llythyr a ddosbarthwyd, nodwyd bod Cadeirydd Fforwm y De-ddwyrain wedi ysgrifennu at Carwyn Jones yn mynegi pryder ynglŷn â chyhoeddi'r ymchwil cyn cael unrhyw fath o ymgynghori na chyfranogiad gan y Grwpiau Rhanbarthol;
- Mewn ymateb i'r cais hwn bydd LlCC yn gofyn i bob un o'r Grwpiau Rhanbarthol drefnu cyfarfod i alluogi RPS gyflwyno'r ymchwil a chaniatáu trafodaeth bellach am y prosiect gyda swyddogion LlCC. Mae'n debyg na fydd y cyfarfodydd hyn yn digwydd cyn diwedd mis Hydref;
- Pwysleisiodd SM fod yr ymchwil wedi'i gwblhau ar ran y tri rhanbarth er mwyn cael ymagwedd gyson ledled Cymru;
- Nid yw'r amserlen ar gyfer lansio'r prosiect wedi'i gytuno gan y Gweinidog eto. Trefnwyd cyfarfod i drafod hyn ar gyfer dydd Mercher 31 Awst; a
- Bydd y GTRh/ FfA yn cael gwybod unwaith y bydd trefniadau wedi'u paratoi. **Gweithredu**: CM.

5. Gallu – Cyfleusterau Presennol ac Arfaethedig

Atgoffodd CM y Grŵp fod LlCC yn awyddus i wella argaeledd data Gallu ar gyfer y cyfleusterau rheoli gwastraff presennol ac arfaethedig.

Cadarnhaodd AR fod papur yn cael ei baratoi ar gyfer ei ddosbarthu a fydd yn nodi'r gofynion data penodol a'r protocol arfaethedig ar gyfer casglu'r data. Nodwyd mai un o'r meysydd anhawster oedd cytuno gyda DEFRA ar ddiffiniad o "allu". Rhagwelir y bydd papur drafft wedi'i gwblhau erbyn dechrau mis Medi.

Cytunwyd y dylid trafod y mater yn fanylach yn dilyn dosbarthu'r papur gan LCC

6. Rhaglen Waith y Dyfodol

Cyfeiriodd CM at ***Nodyn Cefnogi Rhaglen Waith y Dyfodol***. Manteisiwyd ar y cyfle i amlygu'r rhaglen waith sy'n ofynnol gan y Grŵp dros y 18 mis nesaf, gan bwysleisio'r tasgau allweddol a'r dyddiadau targed.

Mewn perthynas â diogelu cyfleusterau rhanbarthol / is-ranbarthol yn y dyfodol yn Ne-orllewin Cymru, nodwyd bod y Cyng. Palmer yn awyddus i sicrhau 'cytundeb gwleidyddol ar lefel uwch (h.y. ar lefel Arweinydd), i sicrhau cydweithrediad rhwng yr awdurdodau cyfansoddol. Mae'r Cyng. Palmer yn awyddus i drosglwyddo'r neges "os na fyddwn yn dod i gytundeb, bydd perygl y bydd hynny'n cael ei orfodi arnom".

Pwysleisiodd CM bod cyfres o gyfarfodydd yn digwydd dros y misoedd nesaf, wedi'u trefnu gan y WLGA y bydd Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn eu mynychu, er mwyn pwysleisio'r cyfle i weithio ar y cyd ar reoli gwastraff. **Gweithredu**: CM i ddosbarthu llythyr y WLGA a chadarnhau dyddiad y cyfarfod yn Ne-orllewin Cymru.

7. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** – I'w drefnu.

8. **Unrhyw Fater Arall**

Dywedodd ML fod ymchwil C&I AyrA wedi'i chwblhau ac yn cael ei chyflwyno cyn bo hir i LCC. Rhagwelir y bydd y data rhanbarthol yn cael ei ddarparu i'r awdurdodau blaen erbyn dechrau mis Medi.

Dywedodd SM bod Arolwg C&D Smiths Gore 2003 wedi'i gwblhau er nad oedd yr Adroddiad terfynol wedi'i ddosbarthu eto. Cadarnhawyd hefyd bydd LlCC yn barod ym mis Ionawr i ddechrau hwyluso Arolwg 2005.

Dywedodd AE bod AyrA, ers y cyfarfod GTRh diwethaf, wedi caniatáu trwyddedau 'heb fod yn beryglus' i safleoedd tirlenwi Palleg / Giants Grave / a Nant Y Caws.

Ymweliad Safle â Chyfleuster MBT: Dywedodd CM fod yr ymweliad arfaethedig â chyfleuster Caerlŷr wedi'i ohirio, a bod y posibilrwydd o ymweld â chyfleuster MBT Twyni Crymlyn. **Gweithredu**: CM i hysbysu'r GTRh o'r diweddaraf.

Dywedodd CM fod Clifford Parish wedi dechrau gweithio i Fro Morgannwg yn ddiweddar. Nodwyd bod CP wedi derbyn diolch ar ran y Grŵp am ei gyfraniad i waith y GTRh.